## Capel Ebeneser, Treuddyn

### Tachwedd 2025 – Rhagfyr 2025

Hoffem ddiolch yn fawr iawn i bawb a wnaeth gefnogi ein hymdrechion codi arian, e.e. Te Prynhawn yn Hafan Deg, yn ystod tymor yr haf. Rydym yn ddiolchgar iawn am eich cefnogaeth barhaol.

Yn ychwanegol at ein gwasanaethau rheolaidd am 6 yr hwyr yn ystod y misoedd diwethaf, fe gynhaliwyd ein Cyfarfod Pregethu eleni, dan ofal y Parchedig Marc Morgan, ar y 19eg o Hydref yn lle Medi'r 14eg oherwydd y tywydd garw; Cymanfa Undebol yr Ardal ar 28ain o Fedi dan arweiniad Mrs Maryl Rees; ac ein gwasanaeth Diolchgarwch ar y 12fed o Hydref dan ofal Mrs Marion Simkin. Diolch yn fawr i bawb wnaeth ymuno â ni yn y gwasanaethau hyn.

Hefyd, ar ddydd Sul, Medi 28ain cynhalwyd wasanaeth Bedydd yn y capel dan ofal ein gweinidog y Parchedig Eirlys Gruffydd Evans gyda Mrs Margaret Roberts wrth yr organ. Pleser oedd gweld Betsi, merch Gemma a Ben Elias, ac wyres i Rhian Gardner, yn cael ei bedyddio yng nghwmni teulu a ffrindiau.

Gan fod amser newid y clociau wedi mynd heibio, cynhelir ein gwasanaethau am 2.30 y prynhawn o hyn ymlaen, os na nodir yn wahanol. Gweler amserlen ein gwasanaethau isod. Bydd croeso cynnes i bawb hoffai ymuno â ni yn y gwasanaethau hyn. Un o uchaf bwyntiau gwasanaethau cyfnod y Nadolig fydd ein gwasanaeth Carolau Dwyieithog a gynhelir eleni ar yr 21ain o Ragfyr. Unwaith eto, bydd plant bach Clwb Capel Ebeneser, sef yr Ysgol Sul, yn rhoi eu cyflwyniad arbennig nhw o stori geni Iesu Grist. Yn dilyn y gwasanaeth bydd croeso cynnes i bawb aros efo ni am baned, cacen a sgwrs. Edrychwn ymlaen yn fawr at weld nifer dda yn y gwasanaeth arbennig yma.

Hoffem atgoffa pawb bod yna groeso cynnes i blant a'u rhieni / oedolyn ymuno â sesiynau'r Clwb, sydd dan ofal Mrs Alaw Smith, ar y Sul cyntaf o bob mis am 10 y bore.

Yn ystod yr wythnosau nesaf byddwn yn casglu anrhegion ar gyfer Apêl Gweithredu Dros Blant, sydd yng ngofal y Parchedig Marc Morgan a Mrs Margaret Morgan. Rydym yn ddiolchgar iawn iddynt am yr holl waith maent yn ei wneud i'r elusen yma.

Edrychwn ymlaen at weld ffrindiau, hen a newydd, yng ngweddill gwasanaethau 2025 ac anfonwn ein dymuniadau gorau ac iechyd da i bawb yn ystod y flwyddyn i ddod. Hefyd, wrth i ni symud tuag at ddiwedd blwyddyn 2025, hoffem ddiolch yn fawr iawn i bawb a fu'n cynnal gwasanaethau yma yn ystod y flwyddyn, yn arbennig ein gweinidog y Parchedig Eirlys Gruffydd Evans. Dymunwn Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

**<u>Gwasanaethau Tachwedd – Rhagfyr 2025</u> (amser fel y nodir)**

| | |
|---|---|
| Tachwedd 2il | Parch Eirlys Gruffydd Evans am **2.30yp** **Cymun** |
| Tachwedd 16eg | Parch Marc Morgan am **2.30yp** |
| Tachwedd 23ain | Mrs Sian Williams am **2.30yp** (gwasanaeth dwyieithog |
| Tachwedd 30ain | Diacon Lisa Rathbone am **2.30yp** (gwasanaeth dwyieithog) |
| Rhagfyr 7fed | Parch Eirlys Gruffydd Evans am **2.30yp** **Cymun** |
| Rhagfyr 14eg | Mrs Ceinwen Parry am **2.30yp** |
| Rhagfyr 21ain | **Gwasanaeth Carolau dwyieithog** dan ofal y Parch Eirlys Gruffydd Evans am **2.30yp** |

Glenys Davies - 1/11/2025